Uniondeb strwythurol: dylunio rhag methu T357

Patrwm cyflwyno *O fis Hydref i fis Mehefin*

Disgrifiad o'r cwrs

Uniondeb strwythurol yw'r broses o astudio dyluniad ac asesiad cydrannau a strwythurau dan lwyth, ac mae wedi dod yn fwyfwy pwysig ym maes dylunio peirianneg. Mae'n integreiddio agweddau ar ddadansoddi straen, ymddygiad deunyddiau a'r mecanwaith o fethu yn y broses o ddylunio peirianneg.

Mae astudiaethau achos yn rhan amlwg o'r cwrs a bydd y cwrs o ddiddordeb i unrhyw un sy'n gysylltiedig â dylunio unrhyw gydran neu strwythur dan lwyth, a bydd o fudd i ddatblygu sgiliau wrth ddadansoddi ac asesu dyluniad cynnyrch.

Mae'n berthnasol ledled y DU a ledled ffiniau rhyngwladol.

Manyleb y person

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y cwrs hwn yn unol â manyleb gyffredinol y person ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir yn y fanyleb person gyffredinol, dylech gael y canlynol:

- profiad o ddamcaniaeth a chymhwyso dadansoddi straen a mecaneg holltau
- diddordeb mewn addysgu peirianneg i fyfyrwyr llawn cymhelliant
- y gallu i helpu myfyrwyr i ddatblygu sgiliau peirianneg drwy addysgu o bell.

Byddai'n fanteisiol pe byddech yn meddu ar y canlynol:

- profiad diweddar o weithio mewn amgylchedd peirianneg
- aelodaeth o sefydliad peirianneg.

Manylion y modiwl – mae eglurhad llawn ar y wefan

Y credydau a gaiff eu dyfarnu i'r myfyriwr ar ôl cwblhau'r modiwl yn llwyddiannus:	30
Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr:	3
Dull cyflwyno aseiniadau:	1a
Lefel y gofynion TGCh:	2
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	20
Band cyflog:	3
Nifer amcangyfrifedig yr oriau fesul wythnos addysgu:	3